**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**
**MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**
**GAN AELOD O GYNGOR GYMUNED LLANBADRIG**

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | Rhoi caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Roger Dobson (Ward Cemaes) o Gyngor Cymuned Llanbadrig ar y telerau a ddisgrifir isod. |
| **Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | 14 Mawrth 2018 |
| **Enwau'r sawl y mae angen eu hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | o Clerc Cyngor Cymuned Llanbadrig<br>o Y Cynghorydd Roger Dobson<br>o Eraill: Llywodraeth Cymru |
| **Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:** | 5 Mai 2022 |

Yn unol â pharagraffau (d), (e), (f) ac (i) y Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu **rhoi caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd Roger Dobson mewn perthynas â'r diddordeb(au) hwnnw / hynny y cyfeirir atynt yn y Ffurflen Gais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion ac/neu aelodau'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â'r mater;
- fel un sy'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned, i ysgrifennu ar ran y Cyngor Cymuned gyda thrydydd partïon, gan gynnwys cyrff allanol/sefydliadau eraill a'r cyhoedd, am y mater;
- siarad gyda swyddogion neu aelodau'r Cyngor Cymuned am y mater;
- fel un sy'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned, i siarad ar ran y Cyngor Cymuned gyda thrydydd partïon, gan gynnwys cyrff allanol/sefydliadau eraill a'r cyhoedd, am y mater,;
- siarad mewn cyfarfodydd o'r Cyngor neu unrhyw un o is-bwyllgorau'r Cyngor, neu unrhyw un o banelau neu weithgorau'r Cyngor (yn amodol bob amser ar unrhyw ganiatâd y bydd ei angen gan y Cadeirydd) ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth ar y mater ac i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth;
- lle mae'n berthnasol, i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath;

Cyn i'r Cynghorydd gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar y mater, bydd raid iddo:

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- chadarnhau ei fod wedi cael caniatâd arbennig sy'n caniatáu iddo siarad a phleidleisio ar y mater; a

- chwblhau’r hysbysiad ar gyfer y clerc (lle bo hynny'n berthnasol) yn nodi’r diddordeb a’r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig: 14 Mawrth 2018